

## **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd ar Nos Ebrill 8fed 2015 am 7 - 0 o'r gloch.**

### **Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 8th April 2015.**

**1. Croeso/Welcome** - Agorwyd y Cyfarfod gan yr Is- Gadeirydd Cyng. E Jones, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

*Meeting was opened by the Deputy Chairperson Clr E Jones, by extending a warm welcome to everyone in attendance.*

**Presennol/Present** - Cynghorwyr Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Delyth Jones, Ann Roberts, Alan Owen, Keith Williams a Geraint Parry (Clerc).

### **2. Ymddiheuriadau/Apologies:-**

Cyng. A Rowland, G Moore, C Jones ac W Hughes.

### **3. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4ydd o Fawrth fel rhai cywir gan Cyng. R Roberts, eiliwyd gan Cyng. D Roberts wrth newid un pwynt.

*Minutes of the previous meeting held on 4<sup>th</sup> March were accepted as accurate by Clr. R Roberts, seconded by Clr D Roberts, by amending one point.*

### **4. Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- Grant i Gwella Amgylchedd, cais wedi ei anfon i mewn. *Grant to improve the Environment has been submitted.*
- Inffois Annog Cyf nawr wedi ei ganslo. *Invoice by Annog Cyf has been cancelled.*
- Cyng. L Davies wedi codi pryderon ynghylch sefydliad gwael yr hanner marathon gyda'r trefnwyr. *Clr L Davies has raised the issue of poor organisation of the half marathon on 1/03/15 with the organisers.*
- Clerc i anfon llythyr i Mr D Tomley Bwthyn Llyswyn, Tŷ Rhys - disgwyl gwybodaeth gan y Cyngor Sir. *Clerk to send a letter to Mr D Tomley, Bwthyn Llyswyn Tŷ Rhys, awaiting information from the County Council.*
- Gerddi Haulfre bellach wedi cadarnhau eu bod yn gallu torri tomen Haulfre a ger y Rhyd, ac yn methu torri'r tir yng Nglanrafon/*Gerddi Haulfre have now confirmed that they are able to cut by Haulfre Cottages and by the Rhyd, and unable to cut the land at Glanrafon.*
- Giât ar dop y steps ar y llwybr ger Eglwys Penmon - Cyng. A Owen wedi cytuno edrych ar y problem. *Gate at the top of the steps near Penmon Church - Clr A Owen has agreed to look at the problem.*

### **5. Datgan Diddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. A Owen ar drafodaeth Neuadd y Pentre'. *Clr A Owen on discussion about the Village Hall*
- Cyng. L Davies ar gais 35C110A. *Clr L Davies on application 35C110A*
- Cyng. M Ellis ac D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol Llangoed. *Clr M Ellis and D Jones on the discussion about the Community Group.*
- Clerc ar drafodaeth gwaith cynnal a chadw Fynwent y plwyf/ *Clerk on the maintenance of the cemetery.*

### **6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications**

- 35C110A - Cais llawn ar gyfer dymchwel y gyn dafarn ynghyd a chodi 4 annedd marchnad agored a 2 annedd fforddiadwy yn Tafarn y Rhyd, Llangoed - dim gwrthwynebiad, ond i sicrhau bod y draeniad dwr wyneb yn cydymffurfio a'r ddeddf. *35C2110A - full application for the demolition and erection of 4 general market houses and 2 affordable houses at Tafarn y Rhyd, Llangoed - no objection, but to ensure that the surface water drainage complies with the act.*

### **7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol/Report by the County Councillor**

- 7.10 Tai Fforddiadwy - yn egluro fod y tai yn y hen gynllun yn costio tua £140k. Oherwydd hyn mae Pennaeth Adran Tai'r Cyngor Sir wedi bod yn llwyddiannus gyda chais i Llywodraeth Cymru am £733k i godi'r Tai rent. *Affordable housing - under the old scheme, the houses would have cost about £140k. Because of this cost, the Head of the Housing Department of the County Council has been successful with an application to the Welsh Government for £733k to build the houses for rent.*

7.11 Llwybr Tawelfan – Cyngor Sir yn ymddiheuro fod nhw ddim wedi ymateb. Dim gwybodaeth ymhellach. *Tawelfan footpath – County Council have apologised that they have not responded. No further information.*

7.12 Gerddi Haulfre – adrodd gan Andrew Jones (Cyfenter) gweld problem nawr gyda'r safle oherwydd diffyg buddsoddiad yno dros y blynyddoedd, disgwyl penderfyniad. *Gerddi Haulfre- report by Andrew Jones (Co-op) now see a problem with the site due to the lack of investment over the years, awaiting a further decision.*

### **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

Cyfarfod misol dim wedi ei gynnal eto.

Fair Pasg 4/04/15 wedi bod yn llwyddiannus iawn, canmol y gwaith eithriadol gan y trefnwyr. Holl arian a godwyd yn ystod y ffair yn cael eu paru yn ariannol gan Banc Barclays/Easter Fair 4/04/15 was very successful, praising the work of the organisers. All the money raised during the fair was matched funded by Barclays Bank.

### **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus trwy ennill Grant Chwarae Cymunedol o £3K / *The Community Council have been successful in winning a Community Play Grant of £3k.*

Cyng. D Jones yn adrodd:-

Asesiad risg wedi cael ei gwblhau ar y Castell Pren./*Risk assessment has now been completed for the Wooden Castle. Cost £5k*

Wedi ennill grant Stadiwm Mileniwm grant o £1.7k am fariau summersault/*Successful in obtaining the Milenium Stadium grant of £1.7k for summersault bars.*

Wedi enill grant Horizon o £2k tuag gost o £4.4k at swing anabl. Gweddill o'r arian wedi ei gasglu/*Successful in obtaining the Horizon grant of £2k towards the cost of £4.4k for a disabled swing. Remainder of this money has been collected.*

Rydym wedi cael mainc picnic gan Tidy Towns ar gyfer maes Chwarae Plant/*We have obtained a picnic bench from Tidy Towns for the Childrens Play Area*

Penderfynwyd yn unfrydol i osod yr eitemau yma ar ein hyswiriant/*It was unanimously decided to place all these items on our insurance.*

Trafodwyd y syniad o dacluso'r parc, pawb yn cytun/*Discussed the idea of tidying up the park, all in agreement.*

### **10. Sgwâr Tawelfan / Tawelfan Square**

Cyng. D Jones yn adrodd:-

Wedi bod yn llwyddiannus i gael grant o £400 gan "Cadw Cymru'n daclus" i bwrcasu blodau lluosflwydd i'r sgwâr/*Successful in obtaining a grant of £400 from "Keep Wales Tidy" to purchase perennial flowers for the square.*

### **11. Grant Elusennol / Charitable Grant**

Wedi derbyn ffurflen grant elusennol, dyddiad cau 8/05/15. Penderfynwyd gwneud cais i adnewyddu'r ffens Neuadd y Pentre'. Clerc i drefnu cael dau amcan pris. Cyng. D Jones yn esbonio'r syniad o gyfuno'r grant tuag at gost y grant arall/*Received application for the Charitable Grant with a closing date of 8/5/15. It was decided to apply to refurbish the Village Hall fence. Clerk to obtain two estimates*  
Clerk D Jones explained the idea of combining the grant towards the cost of the other grant.

### **12. Fynwent y Plwyf / Parish Cemetary**

Clerc yn gadael y cyfarfod ar y drafodaeth yma. Is-Gadeirydd wedi derbyn 4 dyfyniadau ar gyfer y contract 2 flynedd. Dilyn ystyriaeth ofalus derbyniwyd dyfynbris o £650 y flwyddyn oddi wrth y Clerc. *Clerk left the meeting at this point. Deputy Chairperson had received 4 quotations for the 2 year contract. After careful consideration, it was decided to award the quote of £650 per year from the Clerk.*

### **13. Cyfrifon / Accounts**

Penderfynwyd talu/*decided to pay:-*

- MacVenture Play - £3,015.6
- Cyngor Sir - £2,428.2 cynnal a chadw llwybrau/footpath maintenance 2014/15
- G Parry - £485.24 cyflog y Clerc Ionawr – Mawrth/Clerk's salary January – March
- Countryside Management - £192.00 gwaith yn/Work at Lleiniog and Glanrafon
- G Parry - £102.48 gwaith prosiect / Work on Aberlleiniog project 2014/15

### **Incwm / Income:-**

- Grant Chwarae Cymunedol / *Community Play Grant - £3,000*

#### **14. Gohebiaeth / Correspondence**

Apêl/Appeal – CAB

Llythyr/Letter – J Roberts, awdit mewnol/internal audit

Llythyr/Letter – S McVicar, taith beicio gymunedol/community bike ride - 10/05/15

E-bost/e-mail - Katherine Owen SLCC, Diwygio llywodraeth leol/Reforming Local Government

E-bost/e-mail – Cyngor Sir/County Council, ymgynhoriad gwasanaeth Bws/ Bus Service Consultation

E-bost/e-mail – Gerddi Haulfre, gwaith torri gyda tractor/mowing with the tractor

#### **15. UFA/AOB:**

15.1 Clerc i gysylltu ar Swyddog Cymunedol ynghyn ar gôf yrru trwy'r pentre'. Cyng. K Williams yn awgrymu gosod croesfan sebra wrth fynediad i'r Maes Chwarae Plant. *Clerk to contact the Community Beat Officer regarding the speeding through the village. Clr K Williams suggested installing a zebra crossing by the entrance to the Childrens Playing Field.*

15.2 Taith beicio gymunedol cymryd lle 10/05/15/CommunityBike Ride is taking place on the 10/05/15.

15.3 Clerc i gwblhau gwaith awdit 2014/15, mewnol 8/05/15, allanol 4/06/15 / *Clerk to complete the audit on 2014/15 by 8/05/15 internally, externally by 4/6/15.*

15.4 Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Lleol, prif sylwadau/White Paper – *Reforming Local Government*

a) son am glystyru cynghorau cymunedol bychain/clustering of smaller community councils

b) creu "quality status", fel hyfforddi cynghorwyr, Clerc i gael statws Cilca/creating a quality status, trained councillors, clerk to have Cilca status

c) Cynghorau Sir i fonitro'r sector/County Councils to monitor the sector

d) wrth glystyru mae'n bosib colli defnydd iaith Cymraeg/by clustering we could loose the use of Welsh language

15.5 Cyng. M Ellis wedi derbyn cwyn bod deiliad Didfa wedi gadael pridd a gwastraf' gardd ar dir gyferbyn a'r tŷ, sydd nawr yn dechrau disgyn i'r ffos gyfagos. Hefyd wedi plannu coed ar y tir comin a fydd yn amharu ar glanhau y ffos a chynnal y tir/Clr M Ellis has received a complaint that the householder of Didfa has left soil and garden waste which has fallen into the nearby stream. Also has planted trees on the common land that will interfere with cleaning of the ditch and maintenance of the land.

15.6 Dim yn gallu gweld yr arwydd "Dim Dympio" ger y ciosg yng Nglanrafon oherwydd y gor-dyfiant/Cannot see the "No Dumping Sign" by the kiosk in Glanrafon because of the overgrowth.

15.7 Llwybr Tawelfan – dim newyddion ymhellach/Tawelfan footpath – no further information.

15.8 Wal Lleiniog - penderfynwyd anfon llythyr cryf i'r Cyngor Sir fod y cyflwr y wal nawr yn gwneud y ffordd yn beryglus iawn. Angen gosod ffens dros dro. Oes angen trafod y mater gyda chyfreithiwr? / Wall at Lleiniog - it was decided to send a strong letter to the County Council, in that the condition of the wall is making this road dangerous. Need to erect a temporary fence. Do we need to contact a solicitor?

15.9 Cyng. A Roberts - tir y Cyngor Sir ger Haulfre - ffermwr wedi gadael gwastraf' plastig yn sownd yn y weiren bigog ac yn y coed. Cyng. L Davies i godi'r mater gyda Cyngor Sir./Council land at Haulfre - farmer has left the plastic waste stuck to the barbed wire and in the trees. Clr L Davies to discuss the mater with the Council.

15.10 Tyllau ar y ffordd ger Ysgoldy Penmon / Number of holes on the road by Penmon School, Caim.

15.11 Llwybr Coed yr Hendy - nifer o goed wedi dirywio ar y llwybr pren/Hendy footpath - number of planks have deteriorated on the path.

15.12 Cyng. E Jones yn adrodd ei fod yn ymddeol fel Cynghorydd. Diolchwyd am ei waith caled ac ymrwymiad dros y blynyddoedd./ Clr E Jones stated that he was retiring as a Councillor. He was thanked for his hard work and commitment over the years.

#### **16. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.00 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 13/05/2015

*There was no further business to discuss. The Deputy Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 9.00pm*

*Next meeting 13/05/15*

Llofnod y Cadeirydd/Signature

Dyddiad/Date